

## LEVY, MERVYN MONTAGUE (1914-1996), awdur a darlledwr ar y celfyddydau gweledol

**Enw:** Mervyn Montague Levy  
**Dyddiad geni:** 1914  
**Dyddiad marw:** 1996  
**Plentyn:** Ceri Levy  
**Rhiant:** Have Levy (née Rubenstein)  
**Rhiant:** Louis Zachariah Levy  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** awdur a darlledwr ar y celfyddydau gweledol  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Peter Lord

Ganwyd Mervyn Levy yn Abertawe ar 11 Chwefror 1914 o dras Iddewig, un o dri phlentyn Louis Levy a'i wraig Have (ganwyd Rubenstein). Tyfodd i fyny mewn amgylchiadau cyfforddus ymhlith y genhedlaeth dalentog yn Abertawe a gynhwysai Alfred Janes, [Daniel Jones](#) a [Dylan Thomas](#). Yn y 1930au cynnar mynychent gaffi'r Kardomah, gyda [Vernon Watkins](#), Charles Fisher ac eraill. Aeth Levy i Ysgol Gelf Abertawe dan ei Phrifathro dylanwadol, William Grant Murray, cyn mynd ymlaen i'r Coleg Celf Brenhinol yn Llundain yn 1932. Rhannai fflat yn Chelsea gyda [Thomas](#) a Janes, ac yn nes ymlaen hefyd gyda'r arlunydd William Scott. Mabwysiodd y grŵp ffordd o fyw Fohemaidd gan efelychu [Augustus John](#), un a oedd yn 'seren arweiniol' iddynt yng ngolwg Levy. Yn y Coleg Brenhinol rhagorodd Levy fel dyluniwr, gan ennill Gwobr Syr Herbert Read am Ddylunio yn 1935. Cyfrannodd ei ddarluniau o [Dylan Thomas](#) tuag at ffurfio delwedd gyhoeddus y bardd.

Ar ôl iddo adael y Coleg Brenhinol a mynd i mewn i 'jyngl erchyll y byd go iawn', cymerodd Levy amryw swyddi er mwyn ei gynnal ei hun hyd ddechrau'r Ail Ryfel Byd, pan aeth i Sandhurst. Daeth allan yn 1941 gyda chomiswn yng Nghorfflu Addysg Brenhinol y Fyddin, a threuliodd flynyddoedd y rhyfel yn dysgu. Ar ôl y rhyfel cafodd swyddi mewn addysg oedolion ym Mryste ac yn Llundain. Yn y gwaith hwn perthynai Levy i brif ffrwd y ymudiad i ddemocrateiddio'r celfyddydau wedi'r rhyfel, dan arweiniad Cynghorau'r Celfyddydau, ond yn y 1950au daeth i'r amlwg fel arloeswr trwy gyflwyno'r gyfres '*Painting for Housewives*' ar deledu'r BBC. Atgyfnerthodd y gwaith hwn gyda chyhoeddiadau am gelf wedi eu sgrifennu ar gyfer y darllynydd cyffredin - *Painter's Progress* (1954), *Painting for All* (1958) - ac ar gyfer plant, *Painting with Sunshine* (1955). Yn ystod y cyfnod hwn o amlygrwydd Prydeinig ni cholodd gyswllt â'i wlad ei hun, gan gyfrannu ar arddangosfeydd ac ar artistiaid unigol i'r cylchgrawn *Wales*, a olygid gan Keidrych Rhys, gan gynnwys adolygiad nodedig o ddeifiol ar lyfr [David Bell](#), *The Artist in Wales* (1957).

Yn 1962 daeth Levy yn olygydd nodweddiadol ar gyfer y cylchgrawn *The Studio*, swydd a ddaliodd am bedair blynedd ac a fu'n fodd iddo ddod i adnabod ac i sgrifennu am nifer o artistiaid Ewropeaidd blaenllaw, gan gynnwys Salvador Dali. Datblygodd ddiddordeb arbennig yng ngwaith L.S. Lowry, a chyhoeddodd dair cyfrol arno, gan gynnwys *The Paintings of L.S. Lowry: oils and watercolours* (1975). Mae ysgrifau Levy yn amlygu diddordeb cyson yn seicoleg artistiaid, dan ddylanwad syniadau Ffreudaidd am rywioldeb (*The Moons of Paradise: some reflections on the appearance of the female breast in art*, 1962). Yn *Liberty Style, The Classic Years, 1798-1910* (1986), dadleuodd fod Art Nouveau cyfandirol wedi ei drawsnewid gan atalnwyl rhywiol Seisnig yng ngwaith Liberty & Co. Yn 1982 cyhoeddodd hunangofiant byr, *Reflections in a Broken Mirror*.

Roedd ar Levy olwg drawiadol. Roedd yn eithriadol o fyr, ac eto'n olygus. Yn waraidd ei ddull, roedd yn chwedleuwr o fri ac yn hoff o ffantasi, gan ddiddanu ymwelwyr â'r Chelsea Arts Club, a ddeuai ato'n llun yn ei flynyddoedd olaf i glywed ei straeon am [Dylan Thomas](#). Bu'n briod deirgwaith a chafodd un ferch a dau fab; un o'r meibion yw'r gwneuthurwr ffilmiau dogfen Ceri Levy. Bu Mervyn Levy farw yn Llundain ar 14 Ebrill 1996.

### Awdur

Peter Lord

### Ffynonellau

Mervyn Levy, 'No Time Like the Present (I take my stand)', *Wales*, ed. Keidrych Rhys, 4 (December, 1958), 70

Mervyn Levy, *Reflections in a Broken Mirror* (1982)

Peter Lord, recordiad o gyfweiliad gyda Mervyn Levy yn adnau Prosiect Ymchwil Diwylliant Gweledol Cymru, Archif

Genedlaethol Sgrin a Sain, LIGC

Ceri Levy, 'Obituary: Mervyn Levy', *The Independent*, 17 Mai 1996

Peter Lord, *Relationships with Pictures: an Oblique Autobiography* (2013), tt. 166-76

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [79129778](#)

Wikidata: [Q6820925](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2015-01-09

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

